Department for Culture Media & Sport

# Adolygiad o Siarter y BBC 2016

## Taflen wybodaeth - Rheoleiddio

*Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisïau allweddol sydd yn y drafftiau, yn fanylach.*

**Cefndir**

Ar hyn o bryd caiff y BBC ei lywodraethu a'i reoleiddio gan Ymddiriedolaeth y BBC.
Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o systemau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC dan arweiniad Syr David Clementi (Mawrth 2016); derbyniwyd yr argymhellion gan y llywodraeth

**Polisi'r llywodraeth**

- Caiff bwrdd unedol ei sefydlu sy'n gwbl gyfrifol am lywodraethu'r BBC a darparu ei wasanaethau, ac Ofcom fydd rheoleiddiwr allanol anibynnol y BBC, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Clementi.
- Caiff effeithiau marchnad y BBC eu hasesu'n fwy cyffredinol ac effeithiol gan Ofcom, a fydd â'r pŵer i ymchwilio i unrhyw agwedd ar wasanaethau'r BBC.

**Pwerau i reoleiddio** - bydd y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith yn rhoi pwerau i Ofcom reoleiddio'r BBC.
**Trwydded gweithredu -** bydd Ofcom yn gosod system trwydded gweithredu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, a fydd yn cynnwys ei rwymedigaethau rheoleiddio, yn cynnwys gosod mesurau y gellir mesur ac asesu perfformiad y BBC, o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, yn ei erbyn.
**Fframwaith gweithredu -** bydd Ofcom yn cynhyrchu a chyhoeddi fframwaith sy'n nodi sut y byddant yn rheoleiddio'r BBC, gan sefydlu prosesau a gweithdrefnau clir y gall y BBC, y cyhoedd a'r diwydiant eu deall ac y gallant ymgysylltu â hwy.
**Newidiadau i'r gwasanaeth -** os yw'r BBC yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth newydd, neu newid sylweddol i'r gwasanaethau presennol, mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod hyn yn unol â'i Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac y gwneir hyn gan ystyried ei gynulleidfaoedd a'r effaith ar y farchnad a'r gystadleuaeth. Ofcom wedyn fydd â'r gair olaf ar p'un a yw hyn wedi'i gyflawni, ac y gellir cyfiawnhau unrhyw effaith ar y farchnad drwy farn y cyhoedd am y newid.
**Adroddiadau ac adolygiadau -** mae'n rhaid i Ofcom gyflwyno adroddiad blynyddol ar sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswyddau; Mae'n rhaid iddo hefyd gynnal o leiaf dau adolygiad pellach yn ystod cyfnod y Siarter, sy'n cwmpasu pa mor dda y mae'r BBC wedi cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion, ac unrhyw faterion eraill y cred eu bod yn addas. Dylid cynnal yr adolygiad cyntaf yn barod ar gyfer llywio'r adolygiad canol tymor; a gall hefyd gynnal unrhyw adolygiadau ychwanegol i faterion y cred sydd angen ymchwilio iddynt, fel y bo'n briodol.

---

*Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review](http://www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review). Os hoffech drafod cynnwys y daflen wybodaeth hon, cysylltwch â [enquiries@culture.gov.uk](mailto:enquiries@culture.gov.uk)*
*Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Newyddion a Chysylltiadau DCMS ar 020 7211 2210*

**Cwynion -** caiff un system gwynion ei chyflwyno ar gyfer materion golygyddol. Yn y lle cyntaf, y BBC fydd yn ymdrin â'r gŵyn, ond gall yr achwynydd apelio yn erbyn penderfyniad i Ofcom; bydd Ofcom yn gallu ystyried cwynion am holl gynnwys y BBC.

**Y darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb**

_Siarter_

Mae **Erthygl 44** yn rhoi'r swyddogaeth o reoleiddio'r BBC i Ofcom, drwy a198 o'r Ddeddf Cyfathrebu

Mae **Erthygl 45** yn nodi bod dyletswyddau Ofcom, o dan a3 o'r Ddeddf Cyfathrebu, y mae'n ei ddefnyddio i reoleiddio eraill, yn berthnasol i'r BBC; o ran rheoleiddio'r BBC, dylai Ofcom ystyried bod angen i'r BBC gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion, a'i ddyletswydd ei hun i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

Mae **Erthygl 46** yn nodi swyddogaethau Ofcom, i nodi a chyhoeddi fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC, a thrwydded gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (UKPS; y rheiny y'i hariennir drwy ffi'r drwydded), gan nodi amodau a rhwymedigaethau rheoleiddio.

O dan **46(5)** mae'n ofynnol i Ofcom nodi gofynion ar gyfer diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn perthynas â bodolaeth gwasanaethau'r BBC, newidiadau iddynt, a chytundebau â thrydydd partïon.

O dan **46(6)** mae'n ofynnol i Ofcom nodi gofynion o ran y rhyngweithio rhwng y BBC a'i weithgareddau masnachol, er mwyn osgoi ystumio'r farchnad mewn unrhyw ffordd, neu gael mantais annheg

O dan **46(7)** mae'n ofynnol i Ofcom sicrhau y caiff safonau golygyddol eu cymhwyso'n briodol.

Mae **Erthygl 47** yn rhoi'r pŵer i Ofcom ofyn am unrhyw wybodaeth gan y BBC y tybia sy'n angenrheidiol iddo gyflawni ei rôl

Mae **Erthygl 48** yn rhoi'r pŵer i Ofcom gynnal gwaith ymchwil, darparu gwybodaeth i unrhyw unigolyn y tybia yn addas, a chyhoeddi gwybodaeth y tybia sy'n angenrheidiol, er mwyn cyflawni ei rôl

O dan **Erthygl 50** mae'n ofynnol i Ofcom gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y ffordd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau fel rheoleiddiwr, ac asesu cydymffurfiaeth gyda gofynion

O dan **Erthygl 51** mae'n ofynnol i Ofcom gynnal dau adolygiad neu fwy ar y ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion, gan gynnal y cyntaf mewn pryd i hysbysu'r adolygiad canol tymor; gall Ofcom gynnal unrhyw adolygiadau ychwanegol os byddant yn gweld mater penodol y mae angen ymchwilio iddo ymhellach

_Cytundeb_

Mae **Cymal 5** yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i fframwaith gweithredu Ofcom ei gynnwys o ran canllawiau cyffredinol ar weithdrefnau, profion, a rhwymediagethau rheoleiddio eraill

Mae **Cymalau 6 i 15** yn nodi system reoleiddio Gwasanaeth Cyhoeddus y DU (a nodir o dan **Atodlen 1),** y ffordd y mae Ofcom yn cymeradwyo gwasanaethau neu newidiadau i wasanaethau, manylion sut y dylid cynnal profion budd cyhoeddus (8), sut y bydd Ofcom yn penderfynu a gaiff gwasanaeth newydd neu newid sylweddol i wasanaeth ei gymeradwyo (9 a 11), a sut y bydd Ofcom yn cwblhau asesiadau o gystadleuaeth ac adolygiadau o gystadleuaeth (10 ac 12).

Mae **Cymal 13** yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y drwydded gweithredu, ac mae cymal 14 yn nodi sut y caiff perfformiad y BBC ei fesur (yn unol ac atodlen 2, mae'n rhaid i drwyddedau gweithredu ystyried anghenion natur nodedig).

Mae **Cymalau 16 i 22** yn nodi'r system reoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gwasanaeth, yn cynnwys diffinio gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gwasanaeth (nid yw'r rhain yn gysylltiedig â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ond yn wasanaethau sy'n cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), a rheolau sy'n ymwneud â newidiadau i'r gwasanaethau hyn (18), sut y mae'n rhaid cynnal profion budd cyhoeddus (17) a darpariaethau i Ofcom cynnal adolygiad o gystadleuaeth (21).

Mae **Cymalau 23 i 30** yn nodi'r system reoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys sut y caiff gweithgareddau masnachol eu diffinio, a rheolau ar gyflwyno gweithgareddau newydd neu newidiadau i weithgareddau presennol (25), y prawf masnachol (24), sut y bydd Ofcom yn penderfynu p'un a all y BBC wneud newidiadau arfaethedig i wasanaethau (27), sut y bydd asesiad masnachu teg yn gweithio (26), a sut y caiff adolygiadau o weithgareddau masnachu Ofcom a'r BBC eu cynnal (29,30).

Mae **Cymalau 31 a 32** yn nodi'r system reoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau masnachu'r BBC, yn cynnwys diffinio'r gweithgareddau hynny.

Mae **Cymalau 56-60** yn nodi'r rheolau mewn perthynas â'r weithdrefn gwyno newydd (lle mae'r BBC yn ymdrin â'r gŵyn yn y lle cyntaf, ond gellir cyflwyno apeliadau i Ofcom), ac yn darparu bod Ofcom yn cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r system newydd, fel y gwêl yn dda.

Mae **Atodlen 2** o'r Cytundeb yn nodi'r amodau i'w cynnwys yn y drwydded gweithredu, mewn perthynas â chynnwys nodedig, newyddion a materion cyfoes, cynyrchiadau gwreiddiol, ystyriaeth i raglennu ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU, lefelau cynhyrchu annibynnol.

Mae **Atodlen 3** yn nodi rhwymedigaethau rheoleiddiol Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn fwy manwl, sy'n cynnwys peidio â chodi tâl am y gwasanaeth hwn (1), canllawiau golygyddol (2), nodweddion y cynnwys a'r safonau y mae'n rhaid iddo gadw atynt (3), cynhyrchu annibynnol (6), rhwymedigaethau rhyngwladol (11), cyfle cyfartal (12), a hyfforddiant (13)